**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN ..........** **AGENDA ITEM No ………**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN/<br>THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I/REPORT TO** | **PWYLLGOR GWAITH/<br>THE EXECUTIVE<br>CYNGOR LLAWN /<br>FULL COUNCIL** |
| **DYDDIAD/DATE:** | **30.11.10 and 09.12.10** |
| **PWNC/SUBJECT:** | **CADARNHAU CYTUNDEB I SEFYDLU CYD BWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO GYDA CHYNGOR GWYNEDD A GWNEUD NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD<br><br>TO ENDORSE AN AGREEMENT TO ESTABLISH A JOINT PLANNING POLICY COMMITTEE WITH GWYNEDD COUNCIL and TO MAKE CHANGES TO THE CONSTITUTION** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO/<br>PORTFOLIO HOLDER(S):** | **Cyng / Cllr WJ Chorlton** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL/<br>LEAD OFFICER(S):** | **Jim Woodcock –<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Head of Service (Planning and Public Protection)<br>Robyn W Jones –<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Legal Services Manager** |
| **SWYDDOG CYSWLLT/<br>CONTACT OFFICER:** | **Jim Woodcock (Ffôn/Tel: 2402)** |

| **1.** | **Cadarnhewch nature yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy roi tic yn <u>un</u> o'r blychau isod / Please confirm the nature of the report by ticking <u>one</u> of the following boxes:-** |
|---|---|
| Er gwybodaeth / For information | ☐ |
| Gweithredol / Operational | ✓ |
| Strategol / Strategic | ☐ |

| 2. | **Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith / Reason/s why a decision required from the Executive** |
|---|---|

Mae'r adroddiad yn bwriadu newid y Cyfansoddiad i hwyluso'r gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio (y Cyd Bwyllgor) i weithio ar Gynllun Datblygu Lleol (y CDLl ar y Cyd) i Wynedd a Môn.

The report proposes changes to the Constitution to facilitate establishment of a Joint Planning Policy Committee (the Joint Committee) to work on a joint Local Development Plan (the Joint LDP) for Anglesey and Gwynedd.

| 3. | **Crynodeb o'r adroddiad / Report summary** |
|---|---|

Cadarnhau cynnydd gyda sefydlu Cyd Bwyllgor gyda Chyngor Gwynedd er mwyn i waith ar CDLl ar y Cyd ddechrau a gwneud newidiadau i'r Cyfansoddiad i ganiatáu i hyn ddigwydd a thynnu CDLl Ynys Môn yn ôl yn ffurfiol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyflwyno adroddiad ar wahân i'r cyfarfod hwn ar ofynion cydbwysedd gwleidyddol aelodaeth Ynys Môn fel y gall yr aelodau gael eu dewis.

To confirm progress on the establishment of a Joint Committee with Gwynedd Council so as to allow work on a Joint LDP to begin and to make changes to the Constitution to allow this to happen and to formally withdraw the Ynys Môn LDP.

The Directors of Finance and Legal Services are to submit a separate Report to this meeting on the political balance requirements of Ynys Mon's membership to enable members to be selected.

| 4. | **Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau / Recommendation/s and reasons** |
|---|---|

- Cymeradwyo'r Cytundeb yn Atodiad 1 ar gyfer darparu a chefnogi Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio.
- Dirprwy pŵer i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i wneud, gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, unrhyw fân newidiadau fydd eu hangen i'r Cytundeb yn Atodiad 1 ac arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.
- I wneud (neu, lle bo'n berthnasol, ddirprwyo i Bennaeth y Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, y newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y'u ceir yn Atodiad 2 er mwyn gweithredu'r argymhellion uchod.
- I dynnu yn ôl yn ffurfiol CDLl Ynys Môn.

Fe wneir yr argymhellion uchod er mwyn sefydlu'r peirianwaith mwyaf effeithiol ac effeithlon i'r Cyngor allu darparu ei ymrwymiad i fabwysiadu ei CDLl. Mae'r Cyngor llawn a'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi cymeradwyo'r gwaith o baratoi o CDLl ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd fel y ffordd orau sydd ar gael i symud ymlaen.

- To approve the Agreement in Appendix 1 for delivering and supporting a Joint Planning Policy Committee.
- To delegate the power to the Head of Service (Planning and Public Protection) to

make, in conjunction with the Legal Services Manager, any necessary minor amendments to the Agreement in Appendix 1 and sign the Agreement with Gwynedd Council

- To make (or, where applicable, to delegate to the Head of Service (Planning and Public Protection), in consultation with the Legal Services Manager) the changes to the Constitution as set out in Appendix 2 so as to implement the above recommendations.
- To formally withdraw the Ynys Môn LDP.

The above recommendations are made in order to establish the most effective and efficient mechanism for the Council to deliver its commitment to adopting its LDP. Both the full Council and Executive have already endorsed preparing a Joint LDP with Gwynedd Council as the best way to proceed.

## 5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod / Other options and reason/s for rejection

Fe allai'r Cyngor geisio mabwysiadu CDLl ar ei ben ei hun ond mae wedi cael ei gydnabod y byddai hyn yn amcan anodd iawn o ystyried yr adnoddau sydd ar gael ac a fydd ar gael yn y dyfodol.

The Council could seek to adopt an LDP on its own but it has already been recognised that this would be a very difficult objective given current and likely future resources.

## 6. Ymgynghori / Consultation

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **6.1** | Cyllid/Adran 151<br>Finance/Section 151 | ✓ do/yes | ☐ naddo/no | |
| **6.2** | Swyddog Cyfreithiol/Monitro<br>Legal/Monitoring Officer | ✓ do/yes | ☐ naddo/no | |
| **6.3** | Adnoddau Dynol<br>Human Resources | ✓ do/yes | ☐ naddo/no | ☐ amherth / n/a |
| **6.4** | Gwasanaethau Eiddo<br>Property Services | ✓ do/yes | ☐ naddo/no | ☐ amherth / n/a |
| **6.5** | Uned Gyfathrebu<br>Communications Unit | ☐ do/yes | ☐ naddo/no | |
| **6.6** | Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys Aelodau)<br>Others consulted (including Members) | The Portfolio Holder for Planning Services and Planning Policy Staff | | |

## 7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi / Any Policy Framework issues

Mae mabwysiadu'r CDLl (fel cynllun datblygu statudol) yn fater sy'n disgyn o fewn y

Fframwaith Polisi.  Ni fydd hyn yn newid ond bydd camau eraill yn y broses yn cael eu dirprwyo i'r Cyd Bwyllgor newydd, a dyma'r rheswm am yr angen i geisio newid y Cyfansoddiad fel y gellir gweithredu'r cynigion.

Adoption of the LDP (as the statutory development plan) is a matter which falls within the Policy Framework. This will not change but other steps in the process will be delegated to the new Joint Committee, hence the need to seek changes to the Constitution to allow the proposals to be implemented.

**8. Papurau cefndirol / Background papers**

7.1 Adroddiad ar Gyd Ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio i Ynys Môn a Gwynedd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15.6.10 ac i'r Cyngor Llawn ar 5.7.10.
7.2 Adroddiad ar y Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio i Gyngor Gwynedd ar 21.10.10

7.1 Report on Joint Delivery of the Planning Policy Service for Ynys Mon and Gwynedd to Executive on 15.6.10 and Full Council on 5.7.10.
7.2 Report on Joint Planning Policy Committee to Gwynedd Council on 21.10.10.

## 1. CEFNDIR

1.1 Fe benderfynodd y Cyngor Llawn ar 5 Gorffennaf, 2010 gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin, 2010:

- “Bod Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (JPPU) yn cael ei greu i ddarparu’r Gwasanaethau Polisi Cynllunio i Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn;
- Bod Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cael ei greu i fod â throsolwg o waith y JPPU;
- Bod y JPPU yn dechrau ei waith ar un Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn;
- Bod Panel Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei ffurfio i roi mewnbwn i’r gwaith o lunio un CDLl i’r ddau Awdurdod;
- Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio fel corff gwneud penderfyniadau traws ffiniol ffurfiol;
- Bod y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad ag adrannau Cyllid, Cyfreithiol, Personél ac Eiddo yn gweithredu’r uchod.”

1.2 Ers i’r Cyngor llawn gymeradwyo’r egwyddor o gael CDLl ar y Cyd, mae Deilyddion Portffolio a Swyddogion o’r ddau Gyngor wedi trafod a cheisio cael cytundeb ar ddull ymarferol o ddarparu’r CDLl ar y cyd yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Yr adroddiad hwn yw penllanw’r trafodaethau hynny a’r bwriad yw ceisio cael awdurdod i weithredu’r cytundeb a luniwyd.

1.3 I bwrpas gwaith effeithiol ac effeithlon ar y CDLl ar y Cyd mae’n rhaid sefydlu Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio y Cyd Bwyllgor a’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (yr Uned Bolisi ar y Cyd). Mae’r telerau drafft presennol yn y cytundeb ar gyfer y Cyd Bwyllgor i’w gweld yn Atodiad 1. Mae eich Swyddogion yn cael ar ddeall bod Cyngor Gwynedd wedi rhoi ei gymeradwyaeth i’r trefniant arfaethedig hwn ar 21 Hydref, 2010.

1.4 Cyn symud i CDLl ar y Cyd, rhaid i’r Cyngor dynnu CDLl presennol Ynys Môn yn ei ôl yn ffurfiol yn unol â gofynion adran 66 Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004. Mae hwn yn gam technegol a ffurfiol ond bydd yn caniatáu i’r Cyngor symud ymlaen i’r broses CDLl ar y Cyd. Bydd y gwaith a wnaed o’r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer CDLl Ynys Môn yn cael ei ddefnyddio i fwydo i mewn i’r gwaith ar y CDLl ar y Cyd.

## 2. Y CYD BWYLLGOR

2.1 O fewn y Cyd Bwyllgor fe geir 14 aelod gyda 7 aelod yn cael eu hapwyntio gan bob Cyngor. Bydd ‘rheolau cydbwysedd gwleidyddol’, yn berthnasol i aelodaeth y Cyd Bwyllgor sydd i’w apwyntio gan y Cyngor hwn.

2.2 Bydd y Cyfarwyddwyr Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyflwyno adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor hwn ar ofynion cydbwysedd gwleidyddol aelodaeth Ynys Môn fel y gellir dewis yr aelodau.

2.3 Mae pwerau arfaethedig y Cyd Bwyllgor yng nghyswllt y CDLl ar y cyd a materion cysylltiol i'w gweld yn Atodiad 1 (Adran C)). Bydd y Cyngor llawn yn cadw'r pwer i gytuno ar y Cytundeb Darparu ac i fabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith ran gyda gwneud argymhellion ar y Cytundeb Darparu a chytuno ar yr Opsiynau Statudol a'r Strategaeth Ddewisol. Yn fwy pwysig, bydd gan Bwyllgor Sgriwtini perthnasol y Cyngor (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) yr hawl i sgriwtineiddio'r cyfan o'r tair cam allweddol yn y broses (sef: y Cytundeb Darparu, yr Opsiynau Strategol a'r Strategaeth Ddewisol, a'r CDLl ar y Cyd cyn y byddant yn adneuol). Fe dderbyniodd y Pwyllgor Sgriwitni, ar 20.10.10, adroddiad cynnydd ar y gwaith gyda'r CDLl ar y cyd a'r Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio. Awgrymwyd y gall y bydd angen sefydlu Pwyllgor Sgriwtini ar y Cyd.

## 3. GOBLYGIADAU ARIANNOL

3.1 Bydd yr holl gostau, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â sefydlu a ffurfio'r Pwyllgor, yn cael eu rhannu'n gyfartal er mwyn adlewyrchu'r gynrychiolaeth gyfartal a grybwyllwyd ym mharagraff 2.1. Un o'r rhesymau dros ddarparu Gwasanaethau Polisi Cynllunio ar y Cyd i Wynedd a Môn yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ddau awdurdod.

3.2 Yn y diwedd, credir y bydd trefniant gweithio ar y cyd ffurfiol rhwng y ddau awdurdod, yn cynnwys ffurfio Cyd Uned Polisi Cynllunio, yn cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol a ffurfio Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio, yn fwy cost effeithiol na pe byddai yna ddim cydweithio ffurfiol rhwng y ddau awdurdod, lle byddai'r naill awdurdod yn cynhyrchu ei gynllun datblygu lleol ei hun.

3.3 Bydd y Cyd Uned Polisi Cynllunio yn rhoi mewnbwn i'r prosiect Ynys Ynni a bydd yn rhan o'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda'r datblygwr.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Er mwyn gweithredu'r cynigion a ddisgrifir uchod gofynnir i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r argymhellion a ganlyn:

4.1.1 Cymeradwyo'r Cytundeb yn Atodiad 1 ar gyfer darparu a chefnogi Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio.

4.1.2 Dirprwy pwer i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y

Cyhoedd) i wneud, mewn cydweithrediad gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, unrhyw newidiadau bychan fydd angen eu gwneud i'r Cytundeb yn Atodiad 1 os bydd angen ac arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.

4.1.3 I wneud (neu, lle bo'n berthnasol, dirprwyo i Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) newidiadau i'r Cyfansoddiad fel a nodir yn Atodiad 2 er mwyn gweithredu'r argymhellion uchod.

4.1.4 I dynnu yn ôl CDLl Ynys Môn yn unol ag adran 66 o Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 ac i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), i ymgymryd â'r holl weithredu angenrheidiol fydd yn codi o dynnu'r cynllun yn ôl.

**ATODIAD 1**

**CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL I DDARPARU A CHYNNAL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AR GYFER CYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MÔN**

**STATWS Y CYTUNDEB HWN**

Gwneir y Cytundeb hwn ar ***************************** rhwng Cyngor Gwynedd o Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn o Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Môn (a elwir ar ôl hyn yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner (y ddau Awdurdod)) yn eu swyddogaethau fel Awdurdodau Cynllunio Lleol.

**(A) CYFLWYNIAD**

A1. Cytunodd y ddau Awdurdod ar 15 Mehefin 2010 i sefydlu trefniadau i weithio ar y cyd i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd gyfer y ddau Awdurdod. Cytunir bod:

- i) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (yr Uned) yn cael ei sefydlu i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer y ddau Awdurdod.
- ii) Bod yr Uned yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer y ddau Awdurdod.
- iii) Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (y Pwyllgor) yn cael ei ffurfio fel corff trawsffiniol, ffurfiol, ar gyfer cymryd penderfyniadau.

A2. Mae'r Cytundeb hwn yn sefydlu'r trefniadau a'r cyfrifoldebau ar gyfer darparu a gweithredu'r Pwyllgor ac yn dangos sut y bydd ei atebolrwydd (os o gwbl) yn cael ei rannu rhwng y ddau Awdurdod.

A3. Mae yna gytundeb ar wahân rhwng y ddau Awdurdod ar gyfer cynnal a darparu'r Uned ac mae sgôp ei waith yn **Atodiad A.**

**(B) SEFYDLU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (Y PWYLLGOR)**

B1 Mae'r Pwyllgor yn cael ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau bendi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant cydbwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleisio oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

B2 Bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am weinyddu'r Pwyllgor.

**(C) SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

C1 Ar ran y ddau Awdurdod, bydd gan y Pwyllgor y swyddogaethau canlynol:-

(i) Cytuno a pharatoi'n derfynol Gynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
(ii) Cytuno ar, a pharatoi'n derfynol, adroddiad ar ymatebion i ymgynghoriadau ac (yn ôl y gofyn) newid Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn.
(iii) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(iv) Cynghori ar ffurfio Cytundeb Darparu, Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol Gwynedd a Môn.
(v) Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
(vi) Paratoi ac ystyried Ymatebion i Ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau
(vii) Derbyn a chytuno ar Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio.
(viii) Bod â chyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn
(ix) Bod â chyfrifoldeb am gynghori ar gadw trosolwg ar, ac adolygu, rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor ond sy'n bwysig i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Pwyllgor ac i adnoddau sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymateb i gynlluniau Datblygu Lleol mewn Awdurdodau Cynllunio cyfagos ac ymateb i ddogfennau ymgynghori ynghylch Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dogfennau cynghori.
(x) Cadw trosolwg ar, a derbyn adroddiadau gan, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
(xi) Ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(xii) Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

C2 Mae'r tabl yn **Atodiad B** y Cytundeb hwn yn dangos swyddogaeth y Pwyllgor o ran adrodd a chymryd penderfyniadau ar adegau allweddol wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol sengl.

C3 Nid yw Rheoli Datblygu yn swyddogaeth y Pwyllgor; mae hynny'n aros yn swyddogaeth y ddau Awdurdod unigol.

## (D) AELODAETH Y PWYLLGOR

D1 Bydd gan y Pwyllgor gyfanswm o 14 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd.

D2 Bydd y ddau Awdurdod yn penodi Aelodau ar y Pwyllgor yn unol â'r cyfraddau canlynol:-

Cyngor Gwynedd = 7 Aelod o Gyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn = 7 Aelod o Gyngor Sir Ynys Môn

D3 Bydd Aelodau'r ddau Awdurdod a benodir ar y Pwyllgor yn dilyn pob agwedd ar Gôd Ymddygiad Aelodau Gwynedd

D4  Bydd y ddau Awdurdod yn penodi un Aelod wrth gefn rhag ofn y bydd lle gwag yn codi neu na fydd Aelod penodedig yn gallu bod yn bresennol ond, fel arall, ni chaniateir Aelodau sy'n dirprwyo.

**(E) HAWLIAU PLEIDLEISIO**

E1  Dim ond Aelodau o'r ddau Awdurdod sydd wedi'u penodi'n briodol a fydd â hawl i bleidleisio ar y Pwyllgor ac fe'u gelwir yn "Aelodau Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd".

**(F) PENODI AELODAU AR Y PWYLLGOR**

F1  Bydd y ddau Awdurdod yn penodi eu cyfran o Aelodau ar y Pwyllgor yn unol â'i drefniadau cyfansoddiadol ei hunan ar gyfer penodi ar bwyllgorau.

F2  Pedair blynedd fydd cyfnod pob penodiad, pe na byddai Aelod bellach yn aelod o'r Awdurdod bydd yn rhaid i'r Awdurdod hwnnw benodi o'r newydd.

**(G) TREULIAU'R PWYLLGOR**

G1 Bydd treuliau Aelodau yn codi o'u haelodaeth o'r Pwyllgor yn daladwy gan y ddau Awdurdod unigol yn unol â'u Cyfansoddiadau eu hunain.

G2  Bydd y ddau Awdurdod yn cyfarfod â chostau gwasanaethu'r Pwyllgor yn gyfartal.

**(H) CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

H1  Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cynnal Cyfarfod Blynyddol gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar ôl i bob un o'r ddau Awdurdod gynnal eu cyfarfodydd blynyddol eu hunain.  Bydd y cyfarfodydd arferol yn cael eu trefnu am y flwyddyn i ddod yn y Cyfarfod Blynyddol.

H2  Cynhelir cyfarfodydd arferol y Pwyllgor o leiaf bob chwarter.

H3  Gall yr uwch weinyddydd pwyllgor alw cyfarfodydd anarferol, yn ychwanegol at y rhai arferol, ar gais y Cadeirydd neu os bydd tri Aelod o'r Pwyllgor wedi gofyn am gyfarfod o'r fath ac wedi llofnodi a chyflwyno cais i Gadeirydd y Pwyllgor ac nad yw ef / hi wedi galw cyfarfod o'r fath o fewn saith diwrnod i gyflwyno'r cais.

H4 Bydd rhybuddion a gwysion i gyfarfod yn cael eu cyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod hwnnw.

**(I) CWORWM I GYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

I1  Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor fydd pedwar o'i Aelodau.

**(J) CADEIRYDD CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

J1 Bydd Cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith aelodau'r Pwyllgor.  Tymor gwasanaeth y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fydd dwy flynedd.

J2  Bydd aelod o un Awdurdod yn cael ei benodi'n Gadeirydd ac aelod o'r Awdurdod arall yn Is-gadeirydd.  Bydd y gadeiryddiaeth a'r is-gadeiryddiaeth yn cael eu dal bob yn ail rhwng Aelodau'r ddau Awdurdod o'r naill dymor i'r llall.

J3 Os daw swydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn wag yn ystod tymor y swydd bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn dewis un arall.  Bydd yn rhaid i'r un a benodir fod yn Aelod o'r un Awdurdod a'r Aelod y mae'n cymryd ei le.

J4  Bydd y Cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd a'r Is-gadeirydd yn gwneud hynny os bydd yn absennol.  Os bydd y ddau'n absennol, bydd y Pwyllgor yn dewis Aelod arall i gadeirio.

J5  Ni fydd Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn cael ei dalu i'r Cadeirydd.

**(K) TREFNIADAU CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

K1 Bydd trefniadau cyfarfodydd y Pwyllgor yn unol â rheolau sefydlog Cyngor Gwynedd.

K2 Bydd pob eitem o fusnes yn agored i gyfranogiad y cyhoedd, heblaw'r eitemau hynny sy'n cael eu datgan yn gyfrinachol ac yn eithriedig o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

K3 Ym mhob achos, cymerir cofnodion o'r cyfarfod a bydd enwau'r Aelodau a'r Swyddogion sy'n bresennol yn cael eu cofnodi a hefyd ddatganiadau o fuddiannau personol neu ragfarnol.

K4 Penderfynir ar bob mater a ddaw o flaen cyfarfod drwy fwyafrif syml o'r Aelodau sy'n bresennol yn yr ystafell ac sy'n bwrw pleidlais pan fydd y cwestiwn yn cael ei gyflwyno.   Oni bai y mynnir cynnal pleidlais gofrestredig, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo, neu os nad oes anghytuno, drwy gadarnhad y cyfarfod.  Os bydd yna nifer cyfartal o bleidleisiau dros ac yn erbyn cynnig, bydd gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

K5 Bydd holl drefniadau'r Pwyllgor yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Gwynedd oni bai bod y Cytundeb hwn yn datgan yn wahanol.

**(L) MANNAU CYFARFOD A GWEINYDDIAETH CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

L1 Cynhelir cyfarfodydd yn Swyddfeydd y ddau Awdurdod bob yn ail.  Bydd costau mannau cynnal y cyfarfodydd yn cael eu talu'n gyfartal gan y ddau Awdurdod.

L2 Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu uwch weinyddydd / gweinyddwyr a fydd yn gweinyddu pob cyfarfod o'r Pwyllgor drwy ymdrin â materion trefniadol yn

gysylltiedig â threfnu, galw a rhedeg cyfarfodydd, gan gynnwys cymryd a chynhyrchu cofnodion a chasglu, copïo a rhannu rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd a rhoi cyngor ar bwyntiau o drefn ac ynghylch cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn ôl y gofyn.

**(M) TROSOLWG A CHRAFFU'R PWYLLGOR**

M1 Bydd y ddau Awdurdod, gan ddefnyddio eu trefniadau presennol eu hunain fel y byddant yn gweld yn dda, yn cynnal trosolwg a chraffu'n ffurfiol ar weithgareddau'r Pwyllgor.

**(N) ADDASU A THERFYNU'R CYTUNDEB**

N1  Bydd gofyn cael caniatâd y ddau Awdurdod i newid neu addasu'r Cytundeb.

N2 Bydd y Cytundeb hwn yn dal mewn grym tan 2016.

**ATODIAD A**

**Sgôp Gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**Prif Ddyletswyddau:**

1. Cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol, sengl, ar gyfer ardaloedd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (neu fel y'u diwygiwyd)
2. Monitro Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd
3. Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol
4. Darparu cyngor arbenigol (gan gynnwys cynghori ar geisiadau a chynigion cynllunio, materion gorfodaeth, apeliadau) ac ar ymatebion i ymgynghoriadau ar faterion Polisi Cynllunio i'r ddau Awdurdod, sefydliadau allanol ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.
5. Cynnal arolygon blynyddol o Argaeledd Tir Tai
6. Cyfrannu at ddatblygu Briffiau Datblygu a Strategaethau Datblygu ar gyfer y ddau Awdurdod

**Dyletswyddau Eraill:**

1. Cynghori a / neu gymryd rhan mewn cynllunio rhanbarthol, isranbarthol a thrawsffiniol ar faterion megis cludiant, gwastraff, mwynau, ynni adnewyddol.
2. Pob gwaith sy'n rhan o baratoi Cynllun Datblygu Lleol sengl.
3. Darparu tystiolaeth ac ymddangos fel tyst arbenigol yn yr Archwiliad Annibynnol i Gynllun Datblygu Lleol, sengl, ar gyfer ardaloedd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.
4. Darparu tystiolaeth ac ymddangos fel tyst arbenigol ar faterion polisi mewn apeliadau cynllunio neu orfodaeth yn ôl y gofyn.
5. Cynrychioli buddiannau'r Pwyllgor yn y wasg neu ar gyfryngau eraill a chyda sefydliadau allanol.
6. Ymateb i faterion cynllunio defnydd tir eraill a allai godi.

## ATODIAD B

### SYNIAD O ADRODDIADAU A PHENDERFYNIADAU CYFNODAU ALLWEDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DARPARU CYTUNDEB** | **DEWISIADAU STRATEGOL A'R STRATEGAETH DDEWISOL** | **CYNLLUN ADNAU** | **ADRODD AR YMATEBION YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN ADNAU** | **CYNLLUNIO AROLYGYDD ADRODDIAD** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN** |
| **Pwyllgorau Craffu Gwynedd a Môn** | **Craffu** | **Craffu** | **Craffu** | | | |
| **Bwrdd Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Môn** | **Argymell cytundeb** | **Cytuno** | | | | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd*** | **Cynghori** | **Cynghori** | **Cytuno** | **Cytuno** | **Derbyn**** | |
| **Cynghorau Llawn Gwynedd a Môn** | **Cytuno** | | | | | **Mabwysiadu** |

***    Bydd Aelodau o Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn ar y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd***
***** Mae Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio'n derfynol***

Llofnodwyd ar ran Cyngor Gwynedd ……………………………….….

Enw:…………………………………………………………..………

Swyddogaeth …………………………………………………………

Dyddiad……………………………………………………………..

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn
/ Cyngor Sir Ynys Môn: ………………………………………..…….

Enw:…………………………………………………………..…

Swydogaeth ……………………………………………………………..

Dyddiad…………………………………………………………….

**ATODIAD 2**

Newidiadau i'w gwneud i'r Cyfansoddiad
Er mwyn rhoi grym i'r Argymhellion yn yr Adroddiad

1. Yn erthygl 3.2.2.1.1, newid "Cynllun Datblygu Lleol (ar wahân i'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio)" yn lle "Cynllun Datblygu Unedol".

2. Ychwanegu erthygl 3.4.11 i ddarllen fel a ganlyn:

   **"3.4.11 Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio**

   Pwyllgor ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd. 14 o Aelodau, gyda 7 ohonynt wedi'u hapwyntio gan bob Cyngor. Yr aelodaeth i fod a chydbwysedd gwleidyddol.

   3.4.11.1 I wneud yr holl benderfyniadau ar y CDLl ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd (y CDLl ar y Cyd) ar wahân i gytuno'r Cytundeb Darparu a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (y ddau hyn yn swyddogaethau a gadwyd yn ôl i'r Cyngor Llawn) ar wahân i gytuno'r Opsiynau Strategaethol a'r Strategaeth Ddewisol fydd yn cael ei gadw gan y Pwyllgor Gwaith.

   3.4.11.2 Ymgymryd â'r holl waith arall sydd ei angen neu sy'n gysylltiedig gyda pharatoi'r CDLl ar y Cyd a'i fonitro a'i adolygu ar ôl ei fabwysiadu. Fe all y swyddogaethau hyn gynnwys (ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i'r ) canlynol:

   3.4.11.2.1 (Gosod yma'r pwyntiau yng nghymal C1 (i) i (xii) yn y Cytundeb Cyd Bwyllgor fel ei cytunwyd yn derfynol gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd))

   3.4.11.3 Trefnu ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau gan unrhyw swyddog o naill ai Gyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd."